

## Bacteria mewn dŵr

Mae dŵr yfed, fel poteli dŵr ffynnon a mwynol, yn cynnwys bacteria diniwed. Diheintir dŵr tap gyda chlorin mewn gweithfeydd trin dŵr er mwyn gwaredu micro-organebau a allai achosi salwch.

### Profi ansawdd dŵr

Bydd pob gwaith trin dŵr yn monitro lefelau clorin yn barhaus. Yn ogystal, cesglir miloedd o samplau dŵr o weithfeydd trin dŵr, tanciau stôr, busnesau a chartrefi (dewis ar hap) er mwyn eu profi i sicrhau byddant yn cyrraedd safonau ansawdd.

### Bacteria dangosol

Ni fyddwn yn profi dŵr yfed am bresenoldeb pob micro-organeb oherwydd nid oes angen gwneud hynny a byddai'n anymarferol. Fodd bynnag, byddwn yn profi am fathau arbennig o facteria, a allai awgrymu problem gydag ansawdd dŵr. Byddwn yn profi am 3 prif fath o "bacteria dangosol":-

- (1) **Bacteria coliform**, sy'n gyffredin yn yr amgylchedd (ee pridd, planhigion a dŵr). Nid yw eu presenoldeb ar ben eu hunain yn cynrychioli risg i iechyd. Gallant atgenneddu a thyfu ar arwynebau yn y cartref megis gorchuddion plastig ar eich tapiau. Fel arfer bydd presenoldeb bacteria coliform yn absenoldeb unrhyw facteria dangosol eraill yn awgrymu eu bod yn deillio o ffynhonnell amgylcheddol.
- (2) **E.coli (*Escherichia coli*)** yn is-grŵp o'r grŵp coliform. Gwelir *E.coli* mewn niferoedd mawr yng ngholuddion pobl ac anifeiliaid gwaed cynnes. Mae rhai mathau o *E.coli* yn gallu achosi salwch. Mae presenoldeb *E.coli* mewn dŵr yfed bron bob amser yn awgrymu halogiad ymgarthol - gan awgrymu y gallai germau niweidiol fod yn bresennol.
- (3) **Enterococci** yn facteria diniwed, a welir yng ngholuddion pobl ac anifeiliaid gwaed cynnes yn debyg i *E.coli*. Ac yn debyg i *E.coli*, mae presenoldeb Enterococci yn awgrymu halogiad ymgarthol.

### Datgelu bacteria dangosol

Hysbysir canlyniadau profion bacteria coliform ar y diwrnod ar ôl cymryd y sampl. Pan fyddwn yn derbyn hysbysiad o ganlyniadau positif, cymrir camau yn syth i ddatgelu ffynhonnell y bacteria. Byddwn yn cymryd samplau dŵr ychwanegol, a allai gynnwys samplau o adeiladau cyfagos, cronfeydd gwasanaeth a gweithfeydd trin dŵr lleol. Bydd ailadrodd y samplau yn ein helpu i ddeall os bydd problem wirioneddol gyda'r cyflenwad dŵr neu os yn gyfyng i un adeilad. Bryd hynny, y pibellau mewnol fydd achos y broblem fel arfer.

Yn y rhan helaeth iawn o achosion bydd yr ail samplau'n profi o ansawdd boddhaol ac mewn llawer o achosion bydd sampl swab o dap yr un gwreiddiol yn cadarnhau tyfiant bacteria ger y tap oedd y rheswm am fethiant y sampl gwreiddiol.

Ar yr adegau prin pan fydd yr ail samplau'n cadarnhau presenoldeb bacteria byddwn yn cydweithio'n agos â'r Adran Iechyd Amgylcheddol Lleol ac yn cytuno ar y cyd pa fesurau fydd angen i ddiogelu iechyd y cyhoedd. Byddwn yn hysbysu unrhyw gwsmeriaid a allai gael eu heffeithio o'r sefyllfa wrth ysgrifennu atynt. Ac yn achos mater yn effeithio ardal eang byddwn yn hysbysu pobl wrth ddefnyddio'r cyfryngau newyddion lleol.

### Gwybodaeth bellach?

Galwch ein llinell gymorth **0800 052 0130**.

Un o'n rheoleiddwyr, yr Arolygaeth Dŵr Yfed, sy'n gyfrifol am sicrhau ansawdd uchel cyflenwadau dŵr cyhoeddus. Gwefan: [www.dwi.gov.uk](http://www.dwi.gov.uk)